



PLANT YNG NGHYMURU
CHILDREN IN WALES

Adroddiad Effaith

2024-2025



Y gwahaniaeth mae **Plant yng Nghymru** yn ei wneud

Mae gan bob babi, plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl i gael ei glywed, ei barchu a'i gefnogi i ffynnu. Eto i gyd, mae gormod ohonynt yn dal i wynebu rhwystrau rhag cael cymryd eu lleisiau o ddifrif.

Mae Plant yng Nghymru yn bodoli i newid hynny. Rydym yn gwrando ar yr hyn sy'n bwysicaf i blant, yn gweithio ochr yn ochr â'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, ac yn sicrhau bod eu lleisiau yn cyrraedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

A ninnau'r sefydliad aelodaeth cenedlaethol dros hawliau plant, rydym yn ymgychu dros Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru ac yn cefnogi ei weithredu'n llawn.

Trwy eiriolaeth, ymchwil, gwaith polisi, a chydweithio, rydym yn sbarduno newid, yn grymuso lleisiau ifanc, ac yn arfogi gweithwyr proffesiynol i wneud hawliau yn realiti byw i bob plentyn.

Cawn ein harwain gan uniondeb, parch a thosturi, ac rydym yn credu mewn Cymru lle gall pob babi, plentyn a pherson ifanc ffynnu – a lle mae plant eu hunain yn helpu i lunio'r polisiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

5

Rhaid i fy rhieni/ ngofalwyr gael cefnogaeth i mi allu cael mynediad at fy holl hawliau

6

Mae gen i hawl i fywyd

1

Rydwy i o dan 18, felly mae'r hawliau yma i fi

2

Mae gen i'r hawliau yma beth bynnag sy'n digwydd

3

Rhaid i unrhyw benderfyniadau ystyried beth sydd orau i fi

4

Rhaid i fy Llywodraeth wneud yn siŵr mod i'n cael mynediad at fy holl hawliau



7

Mae gen i hawl i enw a chenedl

8

Mae gen i hawl i hunaniaeth

9

Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu, os dyna sydd orau i fi

10

Mae gen i hawl i weld fy nheulu os nad ydyn nhw'n byw gyda fi

11

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon

12

Mae gen i hawl i gael fy marn wedi'i chlywed a'i chymryd o ddifri

13

Mae gen i hawl i fynegi fy hunan

14

Mae gen i hawl i'm meddyliau, fy nghred a'm crefydd fy hun

15

Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



16

Mae gen i hawl i breifatrwydd



17

Mae gen i hawl i gael mynediad at wybodaeth ddibynadwy

18

Mae gen i hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yw hynny'n bosib

19

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth neu esgeuluso

20

Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n methu byw gyda'm teulu fy hun

21

Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fy mabwysiadu

22

Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n ffoadur

23

Mae gen i hawl i amddiffyniad a chefnogaeth arbennig os oes gen i anabledd

24

Mae gen i hawl i ofal iechyd da

25

Os wyf fi ar wahân i'm teulu, rhaid adolygu fy nhriniaeth a'm gofal yn rheolaidd

26

Rhaid i'm teulu gael help ariannol os bydd angen hynny arnyn nhw

27

Mae gen i hawl i fwyd, dillad, a chartref glân, diogel

28

Mae gen i hawl i addysg

29

Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn

30

Mae gen i hawl i ddysgu am fy niwylliant, fy arferion, fy iaith a'm crefydd



31

Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol

32

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag gwneud gwaith peryglus

33

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau anghyfreithlon

34

Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol

35

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy nghiplo, fy ngwerthu a'm masnachu

36

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

37

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag gwneud gwaith peryglus

38

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cam-drin rhywiol

39

Mae gen i hawl i help ychwanegol os wyf fi wedi cael fy anafu, fy esgeuluso, neu fy nhrin yn wael

40

Mae gen i hawl i help ychwanegol i amddiffyn plant, rhaid eu dilyn nhw

41

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

42

Mae gen i hawl i wybod am fy holl hawliau

43

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau anghyfreithlon

44

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag gwneud gwaith peryglus

45

Mae gen i hawl i help ychwanegol os wyf fi wedi cael fy anafu, fy esgeuluso, neu fy nhrin yn wael

46

Mae gen i hawl i help ychwanegol i amddiffyn plant, rhaid eu dilyn nhw

47

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

48

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

49

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

50

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed

51

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed





Croeso gan Hugh Russell, Prif Swyddog Gweithredol Plant yng Nghymru

Croeso cynnes i ail Adroddiad Effaith blynyddol Plant yng Nghymru.

Yn Plant yng Nghymru, mae atebolrwydd yn hynod bwysig i ni. Rydym yn atebol i fabanod, plant a phobl ifanc, wrth geisio hyrwyddo eu hawliau; i'n haelodau, a'u gwaith hanfodol yn canolbwyntio ar Gymru lle bodlonir hawliau pob plentyn; i'n cyllidwyr, y mae eu cefnogaeth yn ein gwthio tuag at ein cenhadaeth; ac i'n gilydd, a ninnau'n gydweithwyr sy'n ymdrechu i sicrhau'r Gymru well honno i'r plant. Mae ein Hadroddiad Effaith yn gyfle gwerthfawr i ni nodi'n gyhoeddus yr hyn a gyflawnwyd a'r gwahaniaeth a wnaed gennym dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cydweithrediad â'r holl bartneriaid hyn.

Arddangos effaith yw un o gonglfeini ein strategaeth pum mlynedd – *Tuag at Gymru Well i Fabanod, Plant a Phobl Ifanc* – yr oeddwn wrth fy modd yn ei lansio ochr yn ochr â grŵp gwych o bobl ifanc ym mis Mawrth 2025. Cafodd y strategaeth ei llywio gan gannoedd o sgysiau am yr hyn sy'n bwysig i bobl y mae gwaith Plant yng Nghymru yn gwneud argraff arnynt. Mae'r themâu o'r trafodaethau hynny yn amlwg trwy ein gwaith ers hynny: mwyhau lleisiau plant, yn unol ag Erthygl 12 CCUHP, yn ogystal â chefnogi eraill i wneud yr un peth; dylanwadu ar natur a chyflawniad gweithgarwch llywodraethol i adlewyrchu'n well anghenion babanod, plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio drostynt; ac archwilio ffyrdd newydd o gysylltu â'n haelodau.



Roedd y bobl ifanc a safodd wrth fy ochr i lansio ein strategaeth yno i lansio eu hadroddiad eu hunain – darn o waith ysgrifenedig campus sy'n archwilio'r rhwystrau sy'n wynebu eu cyfoedion wrth geisio byw mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r prosiect hwn yn nodweddiadol o'r ffordd rydym wedi bwriadu gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc yn ein strategaeth: gan ddarparu'r lle a'r gefnogaeth iddynt wthio am newid cadarnhaol, ystyrlon (gan gynnwys ymateb cyntaf erioed llais y baban i ymgynghoriad llywodraeth). Roedd yr Ymchwil Cyfoedion hefyd yn gyfle i gydweithio â chydweithwyr mewn rolau ymchwil hefyd, ac yn sgil symud i le swyddfa newydd yn SBARC – Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd – ar ddechrau 2024/25 rydym wedi gallu datblygu hyn ymhellach.

Yn ogystal â'r gwaith a wnaethom yn uniongyrchol, byddwn hefyd, am y tro cyntaf, yn defnyddio'r adroddiad hwn i ddangos yr effaith y mae rhai o'n haelodau wedi'i chael. Mae'r sector ieuencid ledled Cymru yn llawn enghreifftiau gwych o waith ystyrlon, effeithiol a all newid holl gwrs bywyd plant. Sefydlwyd Plant yng Nghymru i gynrychioli'r sefydliadau a'r unigolion hyn sy'n gwneud y gwaith hwn sy'n newid bywydau, felly mae'n teimlo'n briodol iawn ein bod yn defnyddio'r lle hwn i lwyfannu rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.

Rwyf hefyd am ddefnyddio'r adroddiad hwn i dalu teyrnged, unwaith eto, i'n cydweithiwr a'n ffrind Karen McFarlane, Uwch Swyddog Polisi Plant yng Nghymru ac eiriolwr gwybodus a phwerus dros hawliau plant, a fu farw, trista'r sôn, yn 2024. Yng nghanol y môr o deyrngedau yn dilyn marwolaeth Karen, dywedodd un o'n haelodau fod *“ymrwymiad diwyro Karen i godi lleisiau a phrofiadau plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yng Nghymru yn ysbrydoledig.”*

Diolch i'm cydweithwyr arbennig sydd wedi cyfrannu cymaint o waith rhagorol ac effeithiol yn ystod y flwyddyn, a diolch am gymryd yr amser i ddarllen amdano.

Ein blwyddyn mewn rhifau

Trwy ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Plant yng Nghymru wedi galluogi plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i ddylanwadu ar benderfyniadau, meithrin sgiliau, a sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd polisi ac arferion ledled Cymru.

Enillodd **4,225** o weithwyr proffesiynol sgiliau a gwybodaeth ymarferol ar ddiogelu a hawliau plant trwy ein cyrsiau hyfforddi.

Cofrestrodd **215** o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar ein rhaglen Cymru Ifanc, gan lywio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a magu sgiliau arwain, eirioli a chydweithio.

Dylanwadodd **238** o bobl ifanc yn uniongyrchol ar bolisi Llywodraeth Cymru drwy rannu eu profiadau bywyd drwy ein digwyddiadau, arolygon ac ymgynghoriadau.

Cefnogwyd **512** o bobl ifanc i fynegi eu barn a chyfrannu'n ystyrlon at wneud penderfyniadau trwy fyrddau cynghori, cyrsiau preswyl a sesiynau cynefino.

Cyflwynwyd **14** o ymatebion ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru a Phwyllgor y Senedd.

Cyhoeddwyd **50** o straeon newyddion a gyrhaeddodd **26,214** o bobl, gan hybu ymwybyddiaeth am hawliau plant a'r ffyrdd y mae pobl ifanc yn dylanwadu ar newid yng Nghymru.

Daeth **76** o gyfarfodydd o'n **15** o weithgorau a rhwydweithiau proffesiynol ag arbenigwyr at ei gilydd i integreiddio hawliau plant mewn polisïau a gwasanaethau.

Cafwyd **132** o weithgareddau allanol, gan gynnwys cyfrannu at ddigwyddiadau, rhoi cyflwyniadau, a llywio ymchwil – gan hybu ymwybyddiaeth mewn cymunedau lleol a fforymau cenedlaethol.

Cyfrannwyd at **56** o gyfarfodydd a gynhaliwyd gan swyddogion y llywodraeth a sefydliadau partner.


Hwylusodd Cymru Ifanc bobl ifanc i gymryd rhan mewn **16** o ymgynghoriadau i sicrhau bod eu hawliau a'u barn yn llywio polisiau a chyfreithiau allweddol.

Mae gennym **304** o aelodau, sy'n dwyn ynghyd rwydwaith o sefydliadau a phobl ifanc sydd wedi ymrwmo i hyrwyddo hawliau plant, cryfhau cyd-ddylanwad a chydweithio ledled Cymru.


Cynhyrchwyd **4** rhifyn cylchgrawn yn arddangos **55** o straeon aelodau, gan ennyn diddordeb **2,694** o ddarllenwyr.

Amdanom ni

Cymysgedd Oedran



Rhywedd



Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Un o'n hamcanion strategol allweddol yn ein [Strategaeth 2025–2030](#) yw bod yn sefydliad cynaliadwy a chynhwysol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gynnydd sylweddol tuag at y nod hwn. Rydym wedi:

- ▶ Sefydlu rwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant staff, sy'n cyfarfod bob chwarter i gynllunio, monitro ac adolygu ein gweithgareddau a'n polisiau amrywiaeth a chynhwysiant.
- ▶ Darparu hyfforddiant i'r holl staff drwy'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid (EYST), ac i'n tîm rheoli trwy Ddysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth (DARPL), i fagu ymwybyddiaeth a hyder mewn arweinyddiaeth gynhwysol.

- ▶ Cryfhau amrywiaeth wrth recriwtio trwy hysbysebion swyddi cynhwysol a cheisiadau dienw.
- ▶ Gwella ein polisiau i sicrhau bod cynhwysiant wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- ▶ Ymuno â chynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall.

Wrth edrych ymlaen, bydd ein ffocws nesaf ar fesur a phrofi effaith y mentrau hyn i sicrhau bod ein hymrwymadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn creu newid ystyrlon a chynaliadwy ar draws y sefydliad.

Effaith: Y gwahaniaeth a wnawn i fabanod a'r blynyddoedd cynnar

www.childreninwales.org.uk



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

'Rydw i'n barod i gyfathrebu
â chi ac eisiau dysgu am y
byd mawr yma, mae'r cyfan
mor newydd i fi.'



Gwrando ar fy llais

Bu Plant yng Nghymru yn gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth am y ffaith bod gan fabanod eu meddyliau eu hunain a'u bod yn gallu cyfathrebu ers eu geni, ac y gallwn ac y dylem fod yn gwranddo arnynt. Mae gwranddo ar fabanod yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u deall, gan ganiatáu iddynt fynegi eu hanghenion ac adeiladu sylfaen o ymddiriedaeth ac ymlyniad diogel.

Ym mis Mehefin 2024, gwnaeth Plant yng Nghymru hanes drwy gyflwyno'r ymgynghoriad ffurfiol cyntaf erioed ar Lais y Baban mewn ymateb i Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru.

Trwy grŵp ffocws ar-lein, daeth 18 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc at ei gilydd i siarad ar ran y rhai sy'n rhy ifanc i ddefnyddio geiriau eu hunain. Wedi'u harwain gan gwestiynau a ddatblygwyd yn ofalus, gofynnwyd i'r cyfranogwyr gadw babi mewn cof, boed yn ffynnu neu'n wynebu anawsterau, ac ymateb o safbwynt y babi.

Mae'r dull arloesol hwn yn taflu goleuni ar leisiau babanod sy'n aml yn cael eu diystyru, gan bwysleisio eu hawl i gael eu clywed a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu lles. Mae'n gam pwysig ymlaen wrth sicrhau bod anghenion a phrofiadau babanod yn llywio polisïau a strategaethau'r dyfodol.

www.childreninwales.org.uk



'Wrth i ti wrando arnaf fi byddi di'n dod i'm deall i'n well. Rydw i'n dangos hoff a chas bethau trwy syllu, symud, mynegiant fy wyneb, seiniau a gwneud sŵn. Ydw, rydw i'n llefain, ond dim ond treio dweud rhywbeth wrthyt ti wyf fi.'



Gwranddo ar fy llais

www.childreninwales.org.uk



'Fi fy hun ydw i, ac mae gen i bersonoliaeth unigryw; ond mae angen help arnaf fi i fynegi hynny.'



Gwranddo ar fy llais

Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

- ▶ Ymgynghoriad ffurfiol cyntaf Llais y Baban wedi'i gyflwyno yng Nghymru
- ▶ Cryfhau'r gydnabyddiaeth bod gan fabanod hawl i gael eu clywed wrth ddatblygu polisïau
- ▶ Creu model y gellir ei gopïo ar gyfer ymgynghoriadau'r blynyddoedd cynnar yn y dyfodol

Mae'r gwaith hwn yn gam sylweddol ymlaen wrth ymgorffori lleisiau babanod a phlant ifanc iawn mewn prosesau penderfynu sy'n effeithio ar eu lles a'u datblygiad.

'Falle mod i'n m
eisoed yn cyfath
wyneb, fy symu
i'n eu gwneud. I
mae angen i chi
mae'r cyfan yn e



Gwranddo ar fy llais

'Mae angen
i fynegi fy h
chwarae a c
dewisiadau.'



Gwranddo ar fy llais

'Mae arna i a
fy sefyllfa i a
teimlo cyn i c
benderfyniad

**'Methu siarad, ond rydw i
cyfathrebu â chi, gwyliwch fy
diadau a'r seiniau rydw
i'n dysgu. Dyma fy 'llais'; y cyfan
i wneud yw dysgu beth
ei olygu.'**



Gwrando ar fy llais

**'Rhowch amser a lle i fi rannu
fy llais, a rhoi gwybod i eraill
sut brofiad yw bywyd i fi.'**



Gwrando ar fy llais

**'Wrth i ti wrando arnaf fi ac yn
i'm hanghenion, rydw i'n gwyb
dy gorff a mynegiant dy wyne
hynny fy helpu i deimlo'n ddi
helpu fy ymennydd i dyfu a da**



Gwrando ar fy llais

**'Cyfleoedd arnaf fi
un wrth archwilio,
hael cyfle i wneud**



**'Rydwy i'n gweld llawer o wyneb
newydd; allwch chi helpu eraill i
wybod sut brofiad yw bywyd i fi,
a helpu fi i rannu fy llais.'**



Gwrando ar fy llais

**'Rydwy i'n gwybod fyddwch chi ddi
amser yn deall beth rydw i'n ceisio
ac mae hynny'n iawn. Siaradwch â
sy'n digwydd, bydd hynny'n helpu
hyd i atebion gyda'n gilydd, ac yn h
wybod beth sy'n mynd ymlaen.'**



Gwrando ar fy llais

**'Angen i bawb ystyried
sut byddwn i'n
chi wneud unrhyw
lau.'**

**'Falle mod i'n methu siarad, ond m
eisoed yn cyfathrebu â chi, gwyliw
wyneb, fy symudiadau a'r seiniau
i'n eu gwneud. Dyma fy 'llais'; y c
mae angen i chi wneud yw dysgu
mae'r cyfan yn ei olygu.'**

Effaith: Y gwahaniaeth a wnawn i blant a phobl ifanc



Cymru Ifanc

Drwy ein rhaglen Cymru Ifanc, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i gwreiddio yn y CCUHP, rydym yn darparu platfform i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n ffurfio eu bywydau.

Gan weithio gydag awdurdodau lleol, elusennau, ysgolion a sefydliadau ledled Cymru, rydym yn creu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan drwy ymgynghoriadau, prosiectau, cyrsiau preswyl a digwyddiadau – a'r cyfan yn canolbwyntio ar flaenoriaethu eu lleisiau hwy.



Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Bu pobl ifanc ledled Cymru yn llywio penderfyniadau, yn meithrin sgiliau, ac yn siarad yn uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

- ▶ Gwnaeth 215 o bobl ifanc lywio penderfyniadau yng Nghymru drwy gymryd rhan mewn 7 Bwrdd Cyngori, gan gyfarfod yn aml i rannu eu blaenoriaethau. Aethpwyd â'u dirnadaeth yn uniongyrchol at gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Gweinidogion ac Aelodau'r Senedd, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu ar bolisi ar y lefelau uchaf.
- ▶ Gwnaeth 152 o bobl ifanc fagu hyder, datblygu sgiliau arwain, ac adeiladu rhwydweithiau cefnogol trwy ein cyrsiau preswyl. Dywedodd llawer eu bod yn teimlo'n fwy abl i leisio eu barn yn eu cymunedau ysgol ac i rai sy'n gwneud penderfyniadau.
- ▶ O ganlyniad i'w cyfraniadau at 28 ymgynghoriad, llywiodd safbwyntiau 238 o bobl ifanc ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a chynlluniau gweithredu ar newid hinsawdd, gan sicrhau bod polisiâu'n cyd-fynd yn well â realiti bywydau pobl ifanc.
- ▶ Bu deg o bobl ifanc o bob cwr o Gymru yn dadlau yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Chwefror 2025, gan gynrychioli eu cyfoedion a sicrhau bod safbwyntiau Cymreig yn cael eu cynrychioli fel Aelodau o Senedd leuenctid y DU. Trwy ein Diwrnodau Datblygu, fe wnaethant fireinio eu sgiliau, dadlau ynghylch materion allweddol, a meithrin cysylltiadau uniongyrchol gydag arweinwyr cenedlaethol a Chymreig, gan gynnwys Syr Chris Bryant AS, Ben Lake AS, a Sioned Williams AoS.
- ▶ Aethom â'r Sgwrs Fawr ar daith, gan drafod gyda 122 o bobl ifanc ar draws 8 awdurdod lleol i nodi eu blaenoriaethau allweddol. Roedd eu barn yn llywio'r trafod yng Ngŵyl Cymru Ifanc a chyflwynwyd eu safbwyntiau mewn cyfarfodydd Gweinidogol, gan sicrhau bod lleisiau ieuenctid yn cael eu clywed ond hefyd yn cael eu gweithredu yn eu cylch.

Roedd y gweithgareddau hyn yn gwireddu hawliau:

- ▶ Rhoddwyd Erthygl 12 (yr hawl i gael eich clywed) ar waith gan fod pobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar wneud penderfyniadau cenedlaethol;
- ▶ Gwireddwyd Erthygl 29 (addysg i ddatblygu talentau a galluoedd) trwy gyrsiau preswyl a hyfforddiant arwain;
- ▶ Datblygwyd Erthygl 17 (cael gwybodaeth) trwy weithdai ar ddemocratiaeth a llythrennedd yn y cyfryngau.

12

Mae gen i hawl i gael fy marn wedi'i chlywed a'i chymryd o ddifri

17

Mae gen i hawl i gael mynediad at wybodaeth ddibynadwy

29

Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn



Adborth gan wirfoddolwyr Cymru Ifanc

Mae gwirfoddolwyr yn dweud wrthym fod Cymru Ifanc yn rhoi dylanwad gwirioneddol iddynt ac ymdeimlad o ymreolaeth: *“Rwy wir yn mwynhau bod yn wirfoddolwr Cymru Ifanc. Mae’n gyfle imi leisio fy marn mewn ffordd effeithiol.”* Dengys hyn fod pobl ifanc yn teimlo bod eu lleisiau’n cael eu clywed ond hefyd y gweithredir yn eu cylch.

Mae pobl ifanc yn cydnabod bod eu cyfranogiad yn gyflawniad uniongyrchol o’u hawliau o dan CCUHP: *“Mae’r cyrsiau preswyl yn gyfle gwerthfawr iawn i leisio fy marn i weinidogion y llywodraeth, mynegi fy safbwyntiau, ac arfer Erthygl 12. Mae hyn yn dangos sut mae ein gwaith yn troi hawliau plant o theori yn ymarfer byw.”*

Mae cyrsiau preswyl hefyd yn cryfhau lles a rhwydwaith pobl ifanc: *“Rwyf bob amser wrth fy modd yn mynd ar un o gyrsiau preswyl Plant yng Nghymru, ac yn cael cymaint o foddhad o’r profiad. Does dim cwrs preswyl wedi bod erioed lle na wnes i frind newydd!”* Mae cyfeillgarwch, cysylltiad, ac ymdeimlad o berthyn ymhlith canlyniadau clir ein dull gweithredu.

Mae pobl ifanc yn magu gwybodaeth ond hefyd yr hyder i siarad o blaid eraill: *“Rydw i wedi dysgu cymaint am hawliau plant sydd wedi fy annog i gael gwybod mwy fyth amdany’n nhw a siarad o’u plaid.”* Dengys hyn effaith bellgyrhaeddol ein gwaith, wrth i gyfranogwyr ddod yn hyrwyddwyr dros hawliau yn eu hysgolion a’u cymunedau.

Trwy bartneriaethau ag ysgolion ac aelodau, mae mwy o weithwyr proffesiynol bellach yn deall sut i ymgorffori llais ieuenctid yn eu gwaith. Golyga hyn fod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried nid yn unig ym mholisi’r llywodraeth ond hefyd mewn gwasanaethau lleol a phrosiectau cymunedol.



Ymchwilwyr Ifanc

Roedd y Prosiect Ymchwil Cyfoedion yn cefnogi pobl ifanc yng Nghymru i ddylunio a chynnal ymchwil i'r rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â byw ecogyfeillgar.

Gwnaeth y cyfranogwyr hyfforddi'n ymchwilwyr cyfoedion, datblygu cwestiwn i'w ystyried, a datblygu cynllun prosiect, gan gynnwys cais cyllid llwyddiannus. Yna fe wnaethant gyflwyno'r ymchwil – gan gynnal arolygon a grwpiau ffocws, dadansoddi'r data gyda chefnogaeth staff Plant yng Nghymru, a chynhyrchu allbynnau wedi'u teilwra:

- ▶ [Adroddiad cryno sy'n addas i blant](#)
- ▶ [Adroddiad proffesiynol llawn](#)
- ▶ [Adroddiad cryno](#)
- ▶ Un dudalen o argymhellion wedi'u hargraffu ar bapur hadog

Lansiwyd y canfyddiadau mewn digwyddiad dan arweiniad ieuenctid ar 14 Mawrth 2025, a gyflwynodd hefyd [strategaeth pum mlynedd](#) newydd Plant yng Nghymru ar gyfer cryfhau llais ac ymgysylltu ieuenctid.

Y Gwahaniaeth a Wnaed

- ▶ Ymhelaethu ar safbwyntiau ieuenctid dilys, gan ddangos grym a gwerth ymchwil dan arweiniad cyfoedion.
- ▶ Cryfhau hyder a sgiliau pobl ifanc fel ymchwilwyr, hyfforddwyr ac eiriolwyr dros newid.
- ▶ Cynhyrchu allbynnau hygyrch, cynaliadwy – gan gynnwys adroddiad sy'n addas i blant wedi'i argraffu ar bapur hadog – gan danlinellu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd.
- ▶ Meithrin cydweithio ystyrlon rhwng pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, a sefydliadau amgylcheddol, gan sbarduno momentwm tuag at newid systemig.



Beth mae'r Ymchwilydd Ifanc yn ei Ddweud

"Rwy'n credu ei bod mor hanfodol bod ymchwil fel hyn yn cael ei dosbarthu ac yn cwrdd â phŵer deddfwriaethol fel y gallwn liniaru effeithiau amlwg iawn yr argyfwng hinsawdd."

– **Cor, Ymchwilydd Ifanc**

"Mae casglu safbwyntiau gan genedlaethau iau am faterion dybryd yn hanfodol i ddeall sut mae datrys y problemau mawr sy'n fwyaf tebygol o effeithio arnynt pan fyddant yn oedolion. Mae adrodd ar yr wybodaeth hon yn bwysig fel y gall y cyhoedd a hyd yn oed pobl mewn mannau pwerus weithredu yn ei chylch a helpu i lunio byd yr ydym yn haeddu byw ynddo." – **Harriet, Ymchwilydd Ifanc**

"Mae'r adroddiad hwn yn bwysig am ei fod yn cyfleu barn wirioneddol pobl ifanc Cymru. Ein cenhadaeth oedd gwrandao ar y safbwyntiau hyn a'u rhannu; trwy lansio ein hadroddiad, rydym yn gobeithio annog ein llywodraeth a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i weithredu yn unol â'n hargymhellion." – **Elizabeth, Ymchwilydd Ifanc**



Astudiaeth Achos:

O Wirfoddolwr Cymru Ifanc i Ymddiriedolwr – Nirushan Sudarsan

“Roeddwn i bob amser yn ei chael hi’n hynod werthfawr bod yn rhan o Gymru Ifanc – cwrdd â phobl ifanc eraill sy’n poeni am y byd ac eisiau ei wneud yn well.”

Wedi tyfu i fyny yn Grangetown, Caerdydd, cysylltodd Nirushan â Chymru Ifanc am y tro cyntaf yn ei arddegau ar ôl mynychu prosiectau ieuenctid lleol. Dechreuodd drwy gyfranogi mewn digwyddiadau a chysiau preswyl, cyn cymryd mwy o gyfrifoldeb fel gwirfoddolwr.

Dros y blynyddoedd, bu iddo feithrin cysylltiadau parhaol, datblygu hyder, a dod i ddirnad mewn ffordd unigryw sut y gall lleisiau pobl ifanc ddylanwadu ar bolisi. *“Ni ddaeth unrhyw sefydliad arall ynghyd â chymaint o gymysgedd o bobl ifanc o bob cwr o Gymru. Roedd clywed gwahanol safbwyntiau yn agor fy meddwl ac yn fy ysgogi i gymryd rhan mewn llywio newid.”*

Cafodd Nirushan ei ysbrydoli gan y profiad hwnnw i ddilyn ymchwil i gyfranogiad ieuenctid yn y brifysgol, gan arwain at brosiect PhD ar rôl plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Yn 2024, cymerodd Nirushan y cam nesaf trwy ddod yn Ymddiriedolwr Plant yng Nghymru. *“Mae ystafelloedd bwrdd yn aml yn cynnwys pobl hŷn, heb adlewyrchu safbwyntiau pobl ifanc bob amser. Mae bod yn rhan o’r bwrdd yn gyfle i mi ddod â phrofiad Cymru Ifanc i’r sgysiau hynny, gan sicrhau bod llais ieuenctid yn rhan o ddyfodol y sefydliad.”*

Fel Ymddiriedolwr, mae Nirushan wedi cofleidio rôl y llysgennad, gan hyrwyddo hawliau plant a dysgu gan aelodau bwrdd profiadol. Mae hefyd yn frwd dros greu llwybrau i bobl ifanc eraill gerdded yn ôl ei draed. *“Ond mae angen mwy na fi – mae angen mwy o leisiau ifanc arnom ar fyrdau. Os gallaf fi ei wneud, gall eraill hefyd.”*

Mae stori Nirushan yn dangos effaith hirdymor cyfranogiad ieuenctid: meithrin hyder, llunio llwybrau gyrfa, a sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cyrraedd y lefelau uchaf o wneud penderfyniadau yng Nghymru.



Astudiaeth Achos:

O Wirfoddolwr i Weithiwr Sesiynol: Siwrnai wedi'i Sbarduno gan Hawliau Plant – Arthur Templeman-Lilley

Daeth Arthur ar draws Cymru Ifanc am y tro cyntaf yn ystod Gŵyl ar-lein 2021, lle cafodd wahoddiad gan y Cyngor Ieuenctid a daniodd ddiddordeb a fyddai'n llywio ei ddyfodol. *"Roedd y cyfan yn ymwneud â hawliau plant, a minnau wrth fy modd â hynny."* Flwyddyn yn ddiweddarach, ymunodd Arthur â byrddau cyngori Cymru Ifanc, *"ac edrychais i byth yn ôl."*

Buan y tyfodd brwdfrydedd Arthur dros gyfranogiad a hawliau, gan ei arwain i gymryd rhan ym Mhrosiect Adolygiad Cyfnodol y Cenhedloedd Unedig rhwng 2022 a 2023. *"Buom yn ymchwilio i weld a yw pobl ifanc yng Nghymru yn teimlo bod eu hawliau'n cael eu gwireddu ac yn nodi blaenoriaethau allweddol fel costau byw, iechyd meddwl a chydaddoldeb."* Rhannwyd adroddiad y tîm gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gwahoddwyd Arthur i Genefa ddwywaith i gyflwyno eu canfyddiadau.

"Roedd yn anhygoel – gweld llywodraethau'n cael eu holi ar hawliau plant a gwybod ein bod wedi helpu i lywio'r trafodaethau hynny."

Yn 2024, ymunodd Arthur â Plant yng Nghymru fel Gweithiwr Sesiynol, gan roi ei frwdfrydedd ar waith. Erbyn hyn, mae ei waith yn cynnwys cynnal gweithdai ac ymgynghoriadau sy'n seiliedig ar hawliau ledled Cymru, o gynghorau ieuenctid i gynadleddau chwaraeon, gan helpu pobl ifanc i archwilio beth mae hawliau plant yn ei olygu yn eu bywydau beunyddiol. Yn ddiweddar, cyflwynodd weithdai yn ystod ymgyrch Sgwrs Fawr Cymru Ifanc, i ddysgu sut mae hawliau hygyrch yn teimlo i bobl ifanc ac ymhle mae'r bylchau mwyaf yn parhau.

Mae taith Arthur o wirfoddolwr i aelod o staff yn esiampl o effaith barhaol cyfranogiad ieuenctid – gan feithrin sgiliau, hyder, a llwybrau proffesiynol wrth sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn parhau i lunio polisi ac ymarfer yng Nghymru.

"Rhoddodd Cymru Ifanc y profiad, y gefnogaeth a'r gred i mi y gallwn droi fy mrwdfrydedd dros hawliau plant yn yrfa – ac erbyn hyn rwy'n helpu pobl ifanc eraill i gychwyn ar yr un daith."



Partneriaethau sy'n mwyhau lleisiau plant



Partneriaeth ar Waith: Cynadleddau Ieuenctid CBDC 2024

Yn Plant yng Nghymru, credwn fod gan bob person ifanc yr hawl i gael ei glywed, ei werthfawrogi a'i rymuso. Gwiredwyd y weledigaeth hon trwy ein partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yng Nghynadleddau Ieuenctid 2024 a gynhaliwyd yn Wrecsam a Chasnewydd.

Dros ddeuddydd, bu chwaraewyr ifanc, hyfforddwyr ac arweinwyr cymunedol yn archwilio datblygiad, cyfranogiad a chyd-gynhyrchiad ieuenctid mewn pêl-droed. Arweiniodd ein tîm ddau weithdy rhyngweithiol ar hawliau a chyfranogiad plant, gan gynnwys dros 100 o bobl ifanc mewn sgwrsiau am degwch, cynhwysiant, a'r ffordd y gall eu lleisiau lywio penderfyniadau yn eu clybiau a'u cymunedau.

Fe wnaethom hefyd gynnal stondin adnoddau a chefnogi CBDC i gydlynu digwyddiadau, gan gryfhau ein partneriaeth gynyddol a pharatoi'r ffordd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol, gan gynnwys model ymgysylltu ag ieuenctid a menter llysgenhaddon ieuenctid cenedlaethol.

Roedd yr effaith yn amlwg: roedd y cyfranogwyr ifanc yn teimlo'n fwy hyderus i leisio eu barn a chyfrannu at wneud penderfyniadau o fewn eu clybiau lleol. Amlygodd y cynadleddau hyn bŵer partneriaeth a chyd-gynhyrchiad, gyda phobl ifanc yn cael eu cydnabod nid yn unig fel chwaraewyr, ond fel arweinwyr a newidwyr sy'n dylanwadu ar ddyfodol pêl-droed yng Nghymru.

[Cewch wybod rhagor am y prosiect yma.](#)

Grymuso pobl ifanc trwy addysg ddemocrataidd: Votopia

"Dylai pob plentyn ledled Cymru gael y cyfle i chwarae Votopia a dysgu am eu hawliau a democratiaeth mewn ffordd gyffrous." - Adborth gan berson ifanc ym Mhen-y-Bont ar Ogwr

Datblygwyd Votopia drwy Brosiect Democratiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, a ariennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nod y bartneriaeth chwe mis hon oedd helpu pobl ifanc i ddeall ac ymgysylltu'n ddyfnach â democratiaeth leol.

Gweithiodd Plant yng Nghymru gyda Promo Cymru a 95 o bobl ifanc o Ben-y-bont ar Ogwr i gyd-ddylunio a phrofi adnodd addysgol newydd, sef gêm fwrdd o'r enw Votopia. Wedi'i chreu o syniadau'r bobl ifanc eu hunain, mae'r gêm yn helpu chwaraewyr i archwilio sut mae democratiaeth leol yn gweithio, dadlau ynghylch materion go iawn, a dysgu trwy chwarae.

Cafodd yr adnodd, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, groeso cynnes gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi dosbarthu copïau trwy ei wasanaethau ieuenctid ac ariannu rhagor o gynhyrchu. Erbyn hyn, mae Votopia yn offeryn etifeddiaeth barhaol sy'n annog deialog am ddemocratiaeth a gwneud penderfyniadau ymhlith pobl ifanc ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

Magodd y cyfranogwyr ifanc sgiliau cydweithio, cyfathrebu ac arwain, yn ogystal â gafael gryfach ar brosesau democratiaidd. Trwy wneud democratiaeth yn ddiddorol a hygyrch, mae Votopia yn grymuso pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gwybodus, gweithgar sydd â'r hyder i lunio eu cymunedau.

[Cewch wybod rhagor am Votopia yma.](#)



Effaith: Y gwahaniaeth a wnawn i deuluoedd

Ym mis Tachwedd 2024, arweiniodd Cyswllt Rhieni Cymru ddathliadau cyntaf erioed Wythnos Magu Plant yng Nghymru, gan osod lleisiau a phrofiadau rhieni wrth wraidd y sgwrs.

Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd:

- ▶ Cystadleuaeth ffotograffau ledled y wlad yn arddangos yr hyn sy'n gwneud teuluoedd yn arbennig ac unigryw, gan ddathlu amrywiaeth bywyd teuluol yng Nghymru.
- ▶ Gweminar y Pedair Gwlad – *Llais Rhieni ar Draws y Pedair Gwlad* – lle bu rhieni ac arbenigwyr o bob cwr o'r DU yn rhannu heriau gwirioneddol ac atebion ymarferol, gan gryfhau'r alwad am well cefnogaeth.
- ▶ Ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol effeithiol, wedi'u cyd-gynllunio gyda'n Grŵp Cyngori Rhieni, gan hybu ymwybyddiaeth am brif bryderon rhieni a chyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth dibynadwy.

Trwy daflu goleuni ar leisiau rhieni, roedd y gweithgareddau hyn yn cydnabod rôl hanfodol rhieni a gweithwyr proffesiynol ond hefyd yn creu llwyfan ar gyfer deialog, cefnogaeth a chydabyddiaeth barhaus. Bydd Cyswllt Rhieni Cymru yn parhau i arwain y gweithgareddau hyn bob blwyddyn, gan sicrhau bod profiadau rhieni yn llywio ymarfer a pholisi.

Cryfhau llais rhieni drwy'r Pecyn Offer Ymgynghori

Mae llawer o sefydliadau am gynnwys rhieni wrth lunio gwasanaethau a phenderfyniadau ond nid oes ganddynt yr offer a'r hyder i wneud hynny'n effeithiol. Mae'r Pecyn Offer Ymgynghori, a ddatblygwyd gan Cyswllt Rhieni Cymru, yn newid hynny.

Mae'r adnodd ymarferol hwn yn grymuso gweithwyr proffesiynol i gynnal sesiynau ymgynghori o safon sy'n sicrhau bod lleisiau rhieni'n cael eu clywed a'u gwerthfawrogi ac y gweithredir yn eu cylch. Trwy ddarparu canllawiau clir, technegau ymgysylltu creadigol, ac adnoddau parod i'w defnyddio, mae'r pecyn offer yn meithrin capasiti ar draws y sector ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng teuluoedd a rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Ers ei lansio ym mis Mawrth 2025, mae'r pecyn offer wedi helpu sefydliadau o ysgolion ac elusennau i awdurdodau lleol i gynyddu cyfranogiad rhieni a chasglu adborth cyfoethocach a mwy cynrychioliadol gan deuluoedd. Mae ymarferwyr yn crybwyll mwy o hyder a chanlyniadau gwell yn eu gwaith ymgynghori.

Mae'r Pecyn Offer Ymgynghori yn newid sylweddol yn y ffordd y mae mewnwelediadau rhieni yn llunio polisiau, gwasanaethau a mentrau cymunedol, gan sicrhau bod gwir lais gan y rhai sydd agosaf at y problemau wrth greu atebion.

[Lawrlwythwch y pecyn offer yma.](#)



Mwyhau lleisiau gyda'n gilydd Aelodaeth Plant yng Nghymru



Mae Plant yng Nghymru yn uno cymuned amrywiol o unigolion a sefydliadau sydd wedi ymrwymo i wella bywydau babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd. Erbyn diwedd 2024–25, roedd ein rhwydwaith wedi tyfu i 304 o aelodau – gan gynnwys 208 o sefydliadau, 47 o unigolion, a 49 o fyfyrwyr a phobl ifanc.

Mae aelodaeth yn golygu mwy na chysylltiad – mae'n golygu gweithredu a dylanwadu ar y cyd. Gyda'n gilydd, mae ein haelodau'n mwyhau lleisiau babanod, plant a phobl ifanc, yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, ac yn cryfhau eiriolaeth dros hawliau plant yng Nghymru.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r aelodau wedi cael diweddariadau sector amserol, cael cyfleoedd i hyfforddi a rhwydweithio, a chyfrannu at ein cylchgrawn chwarterol.

Yn sgil y gweithgareddau hyn, bu'r aelodau'n gallu rhannu arfer da, dylanwadu ar sgysia ehangach, ac ymgorffori hawliau plant mewn polisi ac ymarfer.

Rhifyn 91
Gaeaf 2024/25
childreninwales.org.uk

Materion Iechyd Meddwl:
Archwilio Chwarae, Cysylltiadau
Digidol a Chefnogaeth Gymunedol
i Bobl Ifanc

CYNNWYS
Coleg Sir Gar
European Youth Information
& Counselling Agency
My Story Organisation
Seicolegwyr dros
Newid Cymdeithasol

HEFYD:
Chwarae Cymru
Bernardo's Cymru
Platform

Rhifyn 92
Gwanwyn 2025
childreninwales.org.uk

Meddyliau'n Tyfu:
Llunio Addysg ar gyfer
Dyfodol Cymru

CYNNWYS
Ara Recovery for All
Ysgol Therapiwtig
Ty Amberleigh
Epilepsy Action Cymru
Theatr Iolo

HEFYD:
Tj Hatan
Caerdydd sy'n Dda i Blentyn
Canolfan Gyfeithiol
y Plant Cymru

Rhifyn 93
Haf 2025
childreninwales.org.uk

**Lle Mae Pob Plentyn yn
Perthyn: Amrywiaeth a
Chynhwysiant ar Waith**

CYNNWYS
Bhangu Cyfranogiad,
Prifysgol Caerdydd
PIWS
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Cwm Taf Morgannwg
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

HEFYD:
Labordy Arweinyddiaeth
Gwaith Seisuridd
TACT Fostering
Bernardo's Cymru
Prifysgol Cymru Y
Dinodad Dewi Sant

Rhifyn 94
Autumn 2025
childreninwales.org.uk

Newid y stori:
gyda'n gilydd
dodi plant yng

CYNNWYS
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
Fairer Future
Cyngor Ffoduriaid Cymru
Lisa Turner
(Trails, Bales and Snails)
Money Ready

Yn 2024-25, cafodd aelodaeth Plant yng Nghymru effaith wirioneddol:

- ▶ **Ymwybyddiaeth sector a rhannu gwybodaeth:** gwnaeth 92 bwletin newyddion hysbysu'r aelodau am ddatblygiadau polisi, ymchwil a chyfleoedd, gan eu harfogi i weithredu ynghylch hawliau plant yn eu gwaith eu hunain.
- ▶ **Diweddariadau i 3,415 o dderbynyddion:** yn cwmpasu pynciau hanfodol fel diogelu, hawliau LHDTC+, ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, a gwydnwch rhag profiadau niweidiol yn ystod plentynod – gan gryfhau gallu'r sector i gefnogi plant a phobl ifanc yn effeithiol.
- ▶ **Ymgysylltu wedi'i dargedu:** cafodd 448 o aelodau e-newyddlen unigryw gennym bob pythefnos, gan gadw rhanddeiliaid allweddol yn gyfredol ac wedi'u cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol.
- ▶ **Arddangos arfer da a dylanwadu ar bolisi:** roedd pedwar rhifyn o'n cylchgrawn yn archwilio themâu gan gynnwys *Canolbwyntio ar Hawliau Plant ar Adeg o Newid, Yr Hawl i'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Grymuso Rhieni a Gofalwyr*. Roedd y cylchgronau'n cynnwys cyfraniadau gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, Dawn Bowden AS a Jayne Bryant AS, yn ogystal â 55 o aelod-sefydliadau, gan dynnu sylw at eu gwaith hanfodol. Cyrhaeddwyd 2,694 o ddarllenwyr uniongyrchol, gan helpu i ehangu negeseuon, llunio trafodaethau a gweithredu hawliau plant yn gryfach.

Trwy aelodaeth, mae sefydliadau ac unigolion yn cadw'n wybodus ond hefyd yn dylanwadu'n weithredol ar newid, yn ymgorffori hawliau plant yn ymarferol, ac yn cydweithio i wneud gwahaniaeth go iawn i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru. Mae llais cyfunol ein rhwydwaith yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu clywed a'u deall ac y gweithredir yn eu cylch ar lefel leol a chenedlaethol.



Effaith: Ein gwaith dylanwadu gyda'r llywodraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Buom yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod amrywiol o aelodau a phartneriaid i greu newid cadarnhaol i fabanod, plant a phobl ifanc ledled Cymru. Fe wnaethom gydweithio â gwneuthurwyr penderfyniadau, dylanwadwyr polisi ac ymarferwyr trwy ein gweithgorau a'n rhwydweithiau thematig proffesiynol; ein prosiectau gyda phlant a theuluoedd, a thrwy ein cyfraniadau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol i sbarduno effaith.

Tlodi Plant

Drwy ein Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, rydym wedi llywio camau gweithredu cenedlaethol ar dlodi plant yn uniongyrchol – gan ddylanwadu ar Fframwaith Monitro Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a darparu tystiolaeth arbenigol i bwyllgor y Senedd ar gynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Cydnabuwyd llawer o'n prif argymhellion yn ffurfiol yn eu hadroddiad.

Mae ein 8fed adroddiad blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru yn parhau i ysgogi newid. Cyfeiriwyd yn helaeth ato gan weinidogion, penderfynwyr a phartneriaid, ac yn ogystal â llywio penderfyniadau polisi ac ymarfer mae wedi mwylhau lleisiau gweithwyr proffesiynol, pobl ifanc a rhieni y mae eu profiadau yn sail i'n gwaith.

Crëwyd ffilm graffig o ganfyddiadau'r adroddiad i helpu i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am dlodi plant a'i effaith yng Nghymru. Fe'i defnyddiwyd trwy gydol y flwyddyn mewn digwyddiadau a sesiynau hyfforddi i ddechrau sgysiau, magu empathi, a chefnogi penderfyniadau mwy gwybodus.

[Gwylwch hi yma.](#)

Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau ymhlith blaenoriaethau allweddol Plant yng Nghymru a'n haelodau. Trwy ein rhwydwaith Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), rydym yn parhau i gefnogi gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol, gan sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc wrth wraidd y broses.

Drwy ein rhaglen Cyfranogiad ADY, rydym wedi rhannu'r hyn a ddysgwyr o ymgysylltu'n uniongyrchol â disgyblion mewn ysgolion, gan helpu i lunio adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o'r ddeddfwriaeth a chryfhau ei heffaith ar ddysgwyr.

Ymgorffori lleisiau dysgwyr ag ADY mewn polisi cenedlaethol

Fel rhan o werthusiad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, mae Plant yng Nghymru wedi gweithio gydag ysgolion ledled y wlad i sicrhau bod lleisiau dysgwyr yn llywio'r ffordd y caiff y system ei chyflwyno.

Dros ddwy flynedd, rydym wedi ymgysylltu â 33 o blant a phobl ifanc rhwng 6 a 16 oed trwy 36 sesiwn greadigol mewn pedwar lleoliad — gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg a darpariaethau arbenigol. Gan ddefnyddio dulliau cyfranogol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, rhannodd y dysgwyr sut olwg sydd ar gymorth da ac ymhle mae angen newid.

“O'r blaen, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy anwybyddu – nawr rwy'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf o'r diwedd.”

“Mae sesiynau grŵp bach yn fy ngwneud i'n fwy hyderus.”

Dyweddodd disgyblion fod athrawon sy'n *“rhy lym, yn gweiddi, heb ganiatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith”* yn methu diwallu anghenion disgyblion.

Mae eu mewnwelediadau yn llywio adolygiad parhaus Llywodraeth Cymru o'r system ADY, gan sicrhau bod polisi'n adlewyrchu profiadau go iawn o'r ystafell ddosbarth.

Gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr i'r Senedd i rannu eu barn yn uniongyrchol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gan atgyfnerthu hawliau plant i gael eu clywed yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Y gwahaniaeth a wnaed:

- ▶ Ymgysylltwyd â 33 o ddysgwyr ADY 6–16 oed ar draws 4 ysgol
- ▶ Cyflwynwyd 36 o sesiynau cyfranogiad creadigol
- ▶ Mewnwelediadau plant yn hysbysu gwerthusiad ADY Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol
- ▶ Gwahoddwyd y disgyblion i rannu profiadau yn y Senedd.

Plant â phrofiad o ofal

Rydym wedi cryfhau'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal drwy ein Prosiect Paratoi, gan rymuso gweithwyr proffesiynol a hysbysu plant am eu hawliau. Gan gydweithio ag awdurdodau lleol, gwnaethom gyhoeddi cyfres o adnoddau wedi'u teilwra a'u cynllunio'n benodol ar gyfer plant mewn gofal.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i ddylanwadu ar flaenoriaethau cenedlaethol – gan roi cyngor i swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Siarter Rhianta Corfforaethol, llunio deddfwriaeth i ddileu elw o ofal plant, a hyrwyddo'r angen i gryfhau eiriolaeth annibynnol.

Iechyd Meddwl

Mewn ymateb i'r galw cynyddol, gwnaethom sefydlu'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, sy'n uno sefydliadau cenedlaethol o'r trydydd sector i ymgyrchu dros bolisi cryfach a gwell mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi lles emosiynol babanod, plant a phobl ifanc.

Mae'r rhwydwaith eisoes wedi dylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Iechyd Meddwl newydd Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu blaenoriaethu. Rydym yn parhau i bwysu am ffrwd waith a chynllun pwrpasol i blant, fel bod cymorth iechyd meddwl yn cael ei gynllunio ar sail eu hawliau a'u profiadau.

Ymgysylltu â gwleidyddion Cymru

Yn ogystal â'n hymgysylltu rheolaidd â gweinidogion Llywodraeth Cymru a gwleidyddion yr wrthblaid, fe wnaethom ailsefydlu'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Blant yn San Steffan fel cyfrwng i lywio a chefnogi gwaith ein Haelodau Seneddol yng Nghymru, gan ddechrau drwy ddylanwadu ar eu gwaith ar dlodi plant. Mae ein Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd yn y Senedd yn mynd o nerth i nerth, wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar gyflawni pedair blaenoriaeth y grŵp sef: 1) Ar ffiniau gofal, 2) Y 1000 diwrnod cyntaf, 3) Profiadau niweidiol yn ystod plentynod a 4) Tlodi plant, yn ogystal â dechrau crisialu blaenoriaethau cyffredin ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.

Drwy ein swyddogaeth gynrychioliadol ehangach, gan gynnwys ein cyfraniadau gweithredol at gyfarfodydd Llywodraeth Cymru, ymgysylltu ag aelodau'r Senedd, ein hymatebion i'r ymgynghoriad i ymchwiliadau Llywodraeth Cymru a'r Senedd, rydym wedi helpu i sicrhau bod y materion blaenoriaeth sy'n effeithio ar fabanod, plant, pobl ifanc, a'r gwasanaethau proffesiynol sydd yno i'w cefnogi, yn parhau i fod yn amlwg.



Y gwahaniaeth a wnawn trwy hyfforddiant

Yn 2024–25, cyflwynodd Plant yng Nghymru 296 o sesiynau hyfforddi i 4,225 o weithwyr proffesiynol. Yn ogystal, tanysgrifiodd 3,645 o bobl i gael diweddariadau rheolaidd am gyfleoedd dysgu.

A ninnau'n flaenllaw'n darparu hyfforddiant hawliau plant a diogelu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yng Nghymru, rydym wedi parhau i gryfhau gwybodaeth ac ymarfer ar draws sectorau – o addysg ac iechyd i ofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Buom yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol, gan ddarparu 40 o gyrsiau Grŵp C a 54 o gyrsiau Grŵp B i awdurdodau lleol a sefydliadau partner ledled Cymru.

Gydag arian gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant am ddim ar Hawliau Plant a Chyfranogiad a chyflwyno 10 sesiwn yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae ein hyfforddwyr hefyd wedi dylunio cyrsiau pwrpasol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chyd-gynhyrchu gyda Phobl Ifanc mewn ymateb i anghenion y sector.



Effaith: Y Gwahaniaeth a Wnawn

“Byddaf yn ymgorffori CCUHP yn ein rhaglen llysgenhadon ieuenctid – mae wedi fy helpu i weld sut i wneud gwirfoddoli yn fwy cynhwysol.”

“Mae’r hyfforddiant wedi fy atgoffa pa mor hanfodol yw hi i wneud amser i feddwl am gyfranogiad, nid ymarfer yn unig.”


“Mae hyfforddiant esgeulustod wedi newid y ffordd rwy’n asesu ac yn deall y darlun ehangach gyda theuluoedd.”

“Cymaint o daflu goleuni – diddorol, craff ac ymarferol.”

Trwy ddysgu myfyriol o safon, rydym yn arfogi gweithlu plant Cymru â’r offer, yr hyder a’r ddealltwriaeth i roi hawliau plant a diogelu wrth wraidd arferion pob dydd.

Crynodeb o’r Effaith:

- ▶ 296 o sesiynau wedi’u cyflwyno i 4,225 o gynrychiolwyr
- ▶ 3,645 o danysgrifwyr
- ▶ 94 o gyrsiau diogelu (Grwpiau B ac C)
- ▶ 10 o sesiynau gadael gofal wedi’u hariannu
- ▶ 6 chwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pwrpasol
- ▶ 2 gwrs cyd-gynhyrchu



Yr effaith a wnaeth ein haelodau



Clybiau Plant Cymru

Cyfleoedd Chwarae Cynhwysol i 141 o Blant

Yn sgil cyllid gan Sefydliad Moondance, bu modd i Glybiau Plant Cymru gefnogi 141 o blant, waeth be fo'u hangen neu allu, i fanteisio ar sesiynau llawn chwarae Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol na fyddent fel arfer wedi cael y cyfle i'w mynychu.

Cyflwynwyd y rhaglen hon mewn ffordd heb stigmatiddio, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod wedi'i gynnwys ac yn gallu cymryd rhan yn llawn. Cynlluniwyd y gweithgareddau i fod yn ddifyr, yn ddiddorol ac yn hygyrch i bawb, gan hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad personol.

Dywedodd 100% o'r lleoliadau a gymerodd ran fod y sesiynau wedi cefnogi ymgysylltiad cymdeithasol a lles meddyliol plant.

Dywedodd 100% o'r plant eu bod wedi mwynhau mynychu a'u bod yn edrych ymlaen at y sesiynau.

Datblygodd y plant hyder, sgiliau cymdeithasol, ac ymdeimlad o berthyn trwy weithgareddau chwarae cynhwysol.

"Rwy'n hoffi gwneud ffrindiau newydd a chwrdd â phobl newydd. Rwy'n hoffi darlunio ac ysgrifennu straeon. Rwyf wrth fy modd yn cael sgysiau gyda'r tîm yn y clwb ac yn dangos fy straeon iddynt. Rwy'n edrych ymlaen at y diwrnodau y bydda i'n dod i'r clwb."

23

Mae gen i hawl i amddiffyniad a chefnogaeth arbennig os oes gen i anabledd

29

Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn

31

Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol

Rydym yn falch i gynnig lle i bwysleisio'r cyfraniadau effeithiol y mae ein haelodau'n eu gwneud i fywydau plant yng Nghymru.

Sut mae ein haelodau yn hybu ymwybyddiaeth am CCUHP ac yn mynd i'r afael â'r materion sy'n bwysicaf i bobl ifanc.

Mae ein haelodau yn sbarduno newid gwirioneddol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Trwy eu harbenigedd, eu heiriolaeth a'u hymroddiad i hawliau plant, maent yn darparu gwasanaethau, yn dylanwadu ar bolisi, ac yn mwychu lleisiau ifanc. Yn yr astudiaethau achos hyn, dangosir sut mae eu gwaith yn troi syniadau ac egwyddorion yn effaith wirioneddol.



NYAS Cymru

Methu'r Pwynt

Yn Lloegr, mae gan blant sydd â phrofiad o ofal yr hawl i gyfweiliad dychwelyd annibynnol ar ôl mynd ar goll. Aeth NYAS Cymru ati i sicrhau'r un hawl i blant yng Nghymru.

Arweiniodd hyn at greu Grŵp Llywio Cenedlaethol 'Methu'r Pwynt' Cymru Gyfan, sy'n dod â gweithwyr proffesiynol o bob cwr o'r wlad ynghyd i rannu arfer gorau a lleihau nifer y plant sydd ar goll. Ochr yn ochr â hyn, mae Ymgyrch 'Methu'r Pwynt' wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i wneud cyfweiliadau dychwelyd annibynnol yn hawl statudol, gan dorri'r cylch sy'n golygu bod plant sydd â phrofiad o ofal yn fwy tebygol o fynd ar goll a bod yn destun camfanteisio.

Ar ôl pum mlynedd o ymgyrchu, mae NYAS yn agosach nag erioed at newid. Mae galwadau bellach yn cael eu hadleisio gan Aelodau'r Senedd, wedi'u hymgorffori mewn argymhellion adroddiadau Pwyllgor, a'u codi yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog – gan gadw diogelwch plant yn gadarn ar yr agenda cenedlaethol.

[Cewch wybod rhagor yma.](#)

19

Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth neu esgeuluso

20

Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n methu byw gyda'm teulu fy hun

Barnardo's Cymru

Gwasanaeth Babi a Fi

Mae nifer y babanod sy'n mynd i ofal mewn un rhan o Gymru wedi'i haneru yn sgil cydweithio rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru. Mae gwasanaeth Babi a Fi yr elusen yn profi sut mae ymyrraeth gynnar yn gallu newid bywyd rhieni a'u plant.

Cymru sydd â'r ganran uchaf o blant sy'n derbyn gofal yn y DU ac mae'r niferoedd wedi codi i fwy na 7,000, sef cynnydd o 34% yn y 15 mlynedd diwethaf. Ond yng Nghasnewydd cwtogwyd 60% ar achosion gofal a gyhoeddwyd adeg genedigaeth ers dechrau Babi a Fi yn 2019, ac o'r babanod sydd wedi mynd adref, roedd 100% wedi'u dadgofrestru o'r Gofrestr Diogelu Plant erbyn iddynt fod yn flwydd oed.

[Cewch wybod rhagor yma.](#)

9

Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu, os dyna sydd orau i fi

18

Mae gen i hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yw hynny'n bosib

27

Mae gen i hawl i fwyd, dillad, a chartref glân, diogel



BookTrust Cymru

Dechrau Da Cymru

Mae BookTrust Cymru yn darparu ystod o raglenni darllen dwyieithog sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n newid ymddygiad ledled Cymru gyfan. Mae eu rhaglen, Dechrau Da Cymru yn sicrhau bod pob babi yng Nghymru yn cael pecyn llyfrau dwyieithog ac awgrymiadau darllen am ddim yn ei flwyddyn gyntaf o fywyd, ac eto yn 2–3 oed. Cyrhaeddodd y rhaglenni Dechrau Da Babanod a Blynnyddoedd Cynnar hyn ychydig o dan 60,000 o blant yn 2024.

I blant sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar eu taith ddarllen, mae rhaglen Dechrau Da Plant Bach wedi'i chynllunio ar gyfer plant 1–2 oed o deuluoedd incwm isel, ac fe'i dosbarthir trwy bartneriaid gan gynnwys timau blynnyddoedd cynnar lleol, grwpiau Cymraeg i Blant, ac ymwelwyr ieuchyd Dechrau'n Deg a chyrhaeddodd 5,000 o blant yn 2024. Rhoddwyd bag cefn Storiwr Dechrau Da, sy'n darparu llyfrau, adnoddau a phropiau i ymarferwyr blynnyddoedd cynnar i ddod ag anturiaethau adrodd straeon yn fyw i blant a theuluoedd, i 50 o sefydliadau.

Nod rhaglen Pori Drwy Stori yw cefnogi datblygiad cynnydd plant mewn llythrennedd, llafaredd a rhifedd a datblygu cariad at ddarllen trwy odl a straeon. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno i 'Blant sy'n Codi'n 4 oed' yn y feithrinfa ac o fewn blwyddyn derbyn ysgolion a gynhelir ac mae'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru yn ogystal â chefnogi ymarferwyr i alluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at y pedwar diben a chynyddu ymgysylltiad teuluoedd. Roedd 45,000 o blant yn rhan o'r rhaglen yn 2024.

Mae Clwb Blwch Llythyrau, a gyflwynwyd i 850 o blant yn 2024, yn dod â chefnogaeth ychwanegol i blant agored i niwed a'r rhai sy'n derbyn gofal, o'r Meithrinfa i Flwyddyn 8 (3-13 oed), trwy ddarparu adnoddau addysgol o ansawdd uchel i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhaglenni hyn, a ariennir gan Adnodd a'u noddi gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ag ymwelwyr ieuchyd a llyfrgelloedd i deuluoedd ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

[Cewch wybod rhagor yma.](#)

17

Mae gen i hawl i gael mynediad at wybodaeth ddibynadwy

28

Mae gen i hawl i addysg

29

Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn

31

Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweihgareddau diwylliannol



Ysgol Gynradd Bryn Celyn

Ymgysylltu â Theuluoedd ar Waith yn Ysgol Gynradd Bryn Celyn

Yn Ysgol Gynradd Bryn Celyn, mae ymgysylltu cryf â theuluoedd yn ganolog i ddysgu a datblygiad plant. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau cysylltiadau â theuluoedd trwy ystod o raglenni sy'n cefnogi, addysgu a grymuso rhieni a gofalwyr.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- ▶ Gweithdai cwricwlwm sy'n rhoi cipolwg ymarferol i rieni ar ddysgu eu plant.
- ▶ Sesiynau 'Coginio gyda Fi' yn hyrwyddo bwyta'n iach a sgiliau ymarferol i deuluoedd.
- ▶ Gweithdai 'Cryfhau Teuluoedd' sy'n cynnig arweiniad ar ymddygiad plant, iechyd meddwl a chyfathrebu teuluol.
- ▶ Sesiynau galw heibio 'Cael Gwaith' yn cefnogi rhieni gyda chyflogaeth a datblygu sgiliau.
- ▶ Sesiynau Aros a Chwarae ar gyfer babanod a phlant bach, gan helpu rhieni i greu cwlwm a chysylltu â theuluoedd eraill.

Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn creu amgylchedd cefnogol, cynhwysol sydd o fudd i blant, rhieni, a chymuned ehangach yr ysgol.

5

Rhaid i fy rhieni/
ngofalwyr gael
cefnogaeth i mi
allu cael mynediad
at fy holl hawliau

18

Mae gen i hawl i
gael fy magu gan
y ddau riant os
yw hynny'n bosib

29

Mae gen i hawl i
gyrraedd fy
mhotensial llawn



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Prosiect y 1,000 diwrnod cyntaf

Lansiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro brosiect awyr agored y 1,000 Diwrnod Cyntaf. Mae'r prosiect yn ceisio cysylltu teuluoedd â byd natur a'r awyr agored, gan amlygu gwerth mannau gwylt a chwarae awyr agored wrth gyfrannu at les plant ifanc a'u teuluoedd.

Mae cynulleidfaoedd targed y gwaith wedi bod yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Sir Benfro lle mae cyfraddau cymharol uchel o dlodi plant.

[Cewch wybod rhagor yma.](#)

27

Mae gen i hawl
i fwyd, dillad,
a chartref
glân, diogel

31

Mae gen i hawl
i ymlacio, chwarae,
a chymryd
rhan mewn
gweihgareddau
diwylliannol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Prosiect Dwinsiwns a Dreigiau

Mae'r tîm Seicoleg Gymunedol Plant a Theuluoedd, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Lles Addysg, yn cynnal prosiect Dwinsiwns a Dreigiau (DaD) i gefnogi lles a gwydnwch plant.

Mae sesiynau DaD yn caniatáu i bobl ifanc greu straeon rhyngweithiol ar y cyd, gan feithrin sgiliau cymdeithasol fel cydweithio, empathi, datrys problemau, a chynllunio. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ym Mlaenau Gwent, sef grŵp sy'n agored i ynysu cymdeithasol.

Amlygodd y cyfranogwyr mai gwneud ffrindiau oedd un o'r buddion allweddol, gydag un person ifanc yn gofyn, *"Felly pryd mae'r sesiwn nesaf yn cael ei chynnal?"*

[Darganfyddwch fwy.](#)

29

Mae gen i hawl i
gyrraedd fy
mhotensial llawn

31

Mae gen i hawl
i ymlacio, chwarae,
a chymryd
rhan mewn
gweihgareddau
diwylliannol

ProMo Cymru

Prosiect Meddwl Ymlaen

Ers 2022, mae [ProMo Cymru](#) a [Mind yng Ngwent](#) wedi bod yn gweithio gyda grŵp o Ddylunwyr Gwasanaethau Cyfoedion (17-25 oed) yng Ngwent i gyd-gynhyrchu atebion i wella cefnogaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn yr ardal.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae prosiect Meddwl Ymlaen Gwent yn defnyddio methodoleg dylunio gwasanaethau i sicrhau ein bod yn datblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc.

Mae pobl ifanc wrth wraidd y prosiect o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaethon recriwtio a hyfforddi 11 o Ddylunwyr Gwasanaethau Cyfoedion i weithio ochr yn ochr â'r sefydliadau i lunio'r prosiect, gan dalu'r Cyflog Byw go iawn iddynt.

Yn ystod y cyfnod 'Darganfod', cynhaliodd y Dylunwyr Gwasanaethau Cyfoedion arolwg o dros 200 o gyfoedion a nodi 7 mewnwelediad allweddol pwerus, a gafodd eu cofnodi yn yr [Adroddiad Darganfod](#). Yn y cyfnodau Diffinio a Datblygu, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd cydweithredol gyda phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i gyd-greu atebion prototeip.

Yn dilyn cyfnod o brofi a mireinio, roedden bellach yn barod i Gyflawni'r allbynnau terfynol:

- ▶ Dau weithdy hyfforddi sgwrsio iechyd meddwl dan arweiniad pobl ifanc - un ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac un ar gyfer pobl ifanc.
- ▶ Tudalen Instagram bwrpasol [@keepinmindgwent](#) gyda'r nod o leihau stigma a hyrwyddo ffyrdd o geisio cymorth.

Mae'r prosiect Meddwl Ymlaen Gwent yn rhoi'r pŵer i bobl ifanc gyd-gynhyrchu atebion ar gyfer yr heriau y maent yn eu hwynebu, trwy gymysgedd unigryw o waith ieuenctid a chyflogaeth. Rydym am greu diwylliant o system iechyd meddwl ymatebol, sy'n canolbwyntio ar ieuenctid yng Ngwent, lle mae pob person ifanc yn gwybod sut i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt a lle mae pob gweithiwr proffesiynol yn ymwybodol o'r ffordd orau o'u cefnogi.

[Darganfyddwch fwy.](#)

3

Rhaid i unrhyw benderfyniadau ystyried beth sydd orau i fi

12

Mae gen i hawl i gael fy marn wedi'i chlywed a'i chymryd o ddifri

24

Mae gen i hawl i ofal iechyd da





Y Flwyddyn i Ddod

Gwnaed y gwaith sylfaenol gyda'n gilydd o ddatblygu a lansio strategaeth y gall pawb ohonom yn Plant yng Nghymru weithio'n falch tuag ati; erbyn hyn, mae'r flwyddyn i ddod yn gyfle i fynd i'r afael ymhellach â'r hyn rydym wedi bwriadu ei gyflawni. Un o'r cwestiynau a ofynnais i'r tîm wrth ddatblygu'r strategaeth oedd, "Sut olwg sydd ar ddiwrnod gwych yn Plant yng Nghymru?". Er bod yr atebion yn amrywio, roedd dwy thema gyson yn glir: gwneud gwaith ystyrlon sy'n gwneud gwahaniaeth, a chysylltu ag eraill – boed nhw'n bobl ifanc, aelodau, neu gydweithwyr. Byddwn yn mynd â'r egni hwnnw i'r flwyddyn i ddod.

Bydd ein hanfodion – mwyh au llais ieuencid a dylanwadu ar newid polisi – yn cael eu sicrhau gyda llygad barcud ar effaith ac ystyr. Rwyf am wybod bod yr hyn y mae fy nghydweithwyr a minnau'n ei wneud yn newid pethau mewn gwirionedd. Pan fyddwn yn dod â phobl ifanc at ei gilydd i gael clywed eu lleisiau, rwyf am ddweud wrthynt eu bod wedi cael eu clywed ac wedi gwneud gwahaniaeth. Byddwn yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu ar ein gwaith ein hunain hefyd. Dros y flwyddyn nesaf, rydym am gymryd camau pendant i roi mwy o ddweud i bobl ifanc dros ein cyfeiriad a'n cyflawni.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod y ffocws ar wella cysylltiad yn amlwg trwy bopeth a wnawn. Wrth siarad â rhanddeiliaid ar gyfer y strategaeth, roedd yn amlwg bod Plant yng Nghymru yn cael ei werthfawrogi'n fawr am ei rôl fel cynullydd. Mae miloedd o bobl fedrus, frwdfrydig yn gweithio i wella bywydau babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rhan o'n rôl yw eu cefnogi nhw, hyrwyddo'r gwaith da a wnânt, a helpu i sicrhau bod ganddo lwyfan i ddylanwadu ar arferion da ledled y wlad. Mae dod ag aelodau at ei gilydd ac ynghyd â llunwyr polisi yn rôl bwysig i Plant yng Nghymru a byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd a wnawn hyn i'r flwyddyn nesaf. Ein bwriad yw darparu cynnig aelodaeth uwch gyda mwy o gyfleoedd i aelodau ddod at ei gilydd, gan gynnwys dychwelyd i'r cynadleddau rheolaidd a gyflwynwyd gennym cyn y pandemig.

Felly, mae digonedd i'w wneud. Diolch am ymuno â ni ar y daith.

Hugh Russell, Prif Swyddog Gweithredol Plant yng Nghymru

